

## **Gweithio Tuag at Gymru Ddiogelach, Gadarnach**

### **Cynllun Blynyddol y Cynghorwyr Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2019-2020**

#### **1. Cyflwyniad**

Yn 2015, daeth y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) ('y Ddeddf') i rym. Roedd hwn yn ddarn arloesol o ddeddfwriaeth yn adeiladu ar y cynnydd oedd wedi'i wneud ers cyhoeddi'r strategaeth Yr Hawl i fod yn Ddiogel yn 2010 ac mae'n pennu ffocws strategol a statudol ar y materion allweddol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno amrywiaeth o fesurau i fynd i'r afael ag achosion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV), ac mae'r Ddeddf wedi cyflawni'r amcan strategol i wella'r cydweithredu rhwng y sector cyhoeddus a gwella ymatebion yng Nghymru.

Mae Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru, sy'n ofynnol o dan y Ddeddf, yn adeiladu ar y cynnydd hyd yma ar y cyd, ac yn blaenoriaethu'r cyflawni ym meysydd atal, amddiffyn, a darparu cefnogaeth. Mae'n datgan amcanion allweddol Llywodraeth Cymru'n seiliedig ar dri phwrpas y Ddeddf: atal; amddiffyn; a chefnogi. Bwriad y strategaeth yw gwella ymateb y sector cyhoeddus i drais seiliedig ar ryw, cam-drin domestig a thrais rhywiol a darparu ffocws strategol ar y materion hyn.

I esbonio, mae pob cam gweithredu ac amcan yn y cynllun blynyddol hwn yn berthnasol i bob dioddefwr ac yn gydradd mewn perthynas â dioddefwyr a goroeswyr gwrywaidd a benywaidd, DLIE, LGBTQ, plant a phawb sydd â nodweddion gwarchoddedig eraill.

Fis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Fframwaith Cyflawni traws-lywodraethol. Bydd y blaenoriaethau a nodir yn y Fframwaith traws-lywodraethol yn cyfrannu at gyflawni atal trais a cham-drin, ac amddiffyn dioddefwyr a chefnogi pawb sydd wedi'u heffeithio. Y nod yn y pen draw yw symud at gymdeithas lle mae pawb yn gallu byw heb ofn. Mae'r Fframwaith traws-lywodraethol yn amlinellu'r camau gweithredu penodol sydd wedi'u cyflawni hyd yma ac mae'n datgan yn fanylach beth mae Llywodraeth Cymru'n gobeithio'i gyflawni yn ystod y 3 blynedd nesaf er mwyn gwireddu'r ymrwymadau yn y Strategaeth. Mae ein Cynllun Blynyddol yn ategu ac yn ychwanegu gwerth at y Fframwaith Cyflawni traws-lywodraethol.

Mae dull Llywodraeth Cymru o alluogi unigolion a grwpiau yn ein cymunedau i fyw heb ofn trais a cham-drin yng Nghymru'n arddangos sut rydym yn rhoi'r pum ffordd o weithio a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar waith drwy gynnwys, atal, integreiddio, cynllunio tymor hir a chydweithredu.

Mae llawer o gynnydd wedi bod ers 2010 ac mae gwaith aml-asiantaeth yn gyffredin yn awr, ond mae mwy i'w wneud o hyd. Byddwn yn gweithio, ochr yn ochr â

Llywodraeth Cymru, i adeiladu ar y sylfeini sydd wedi'u gosod eisoes, i greu sector cryfach a chadarnach i gefnogi unigolion a theuluoedd sy'n wynebu risg.

Er bod y materion hyn yn cael effaith anghyfartal ar fenywod a genethod, mae trais a cham-drin yn digwydd yn erbyn dynion a bechgyn hefyd, ac mae'r cyfeirio yn y cynllun hwn at 'ddioddefwyr' a 'goroeswyr' yn golygu pawb sydd wedi profi a chael eu heffeithio gan VAWDASV.

## **2. Cyd-destun**

Mae'n bleser cael adrodd ar gynnydd arwyddocaol yn y maes hwn, fel yr amlinellir yn ein Hadroddiad Blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2018; fodd bynnag, rydym yn gwbl ymwybodol bod heriau/amcanion penodol sy'n gofyn am ymdrech gyson, wedi'i thargedu. Mae Adran 22 y Ddeddf yn gofyn i ni lunio Cynllun Blynyddol yn datgan ein hamcanion a'n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Mae hwn, ein cynllun blynyddol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, yn datgan fframwaith sy'n ceisio cefnogi cynnydd ein hamcanion allweddol a bydd yn helpu i sbarduno'r uchelgais o wneud Cymru'n un o'r llefydd diogelaf yn Ewrop i fenywod ac, yn y pen draw, ei holl ddinasyddion. Ein nod ni yw sicrhau bod pwrpas cyffredinol y Ddeddf yn cael ei drosi'n ganlyniadau cadarnhaol i'r rhai sydd angen eu hamddiffyn a'u cefnogi.

Dyma ein blaenoriaethau cyffredinol ar gyfer ein tymor fel Cynghorwyr Cenedlaethol (a'r mesurau y byddwn yn eu defnyddio i fonitro cynnydd):

### Atal Trais

- Mae cyfran uwch o gymdeithas yn credu bod VAWDASV yn annerbyniol ac wedi'i grymuso i herio ymddygiad treisgar;
- Llai o ddioddefwyr trais rhywiol a domestig bob blwyddyn;
- Gweithwyr proffesiynol rheng flaen (e.e. athrawon, meddygon, yr heddlu ac erlynwyr) yn gallu adnabod a delio'n well gyda VAWDASV;
- Mwy o gyflogwyr yn adnabod ac yn cefnogi dioddefwyr VAWDASV.

### Darparu Gwasanaethau

- Mae dioddefwyr VAWDASV yn cael lefel dda a chyson o wasanaeth ledled Cymru;
- Mae'r sector statudol a'r trydydd sector yn ymateb yn briodol y tro cyntaf;
- Comisiynu a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel ar bob lefel – cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

### Gwaith Partneriaeth

- Cefnogaeth well ar gael i ddioddefwyr a'u teuluoedd gyda'r sector statudol a'r trydydd sector yn cydweithio i rannu gwybodaeth a chytuno ar weithredu ymarferol.

## Canlyniadau Cyfiawnder a Lleihau Risg

Rydym yn cydnabod nad yw hwn yn bŵer datganoledig, fodd bynnag, drwy weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau perthnasol y DU, byddwn yn gweithio tuag at alluogi'r canlynol:-

- Cynyddu hyder menywod a genethod i annog mynediad i'r System Cyfiawnder Troseddol;
- Gwell canlyniadau cyfiawnder troseddol i ddioddefwyr trais yn erbyn menywod a genethod, gan gynnwys cyfradd yr euogfarnau;
- Cyfradd gynyddol o adsefydlu ymhlith troseddwr ifanc;
- Llai o ddigwyddiadau lluosog o drais drwy ddefnyddio adnoddau rheoli risg priodol.

### **3. Materion a Heriau:**

Mae ein rôl fel Cynghorwyr Cenedlaethol yn cefnogi'n llawn uchelgais Llywodraeth Cymru i ddileu pob ffurf ar drais seiliedig ar ryw. I wneud hyn, rhaid i ni newid agweddau a gweithredu newid systematig a chynaliadwy ym mhob maes mewn cymdeithas. Ar lefel wleidyddol, economaidd a chymdeithasol, ni ddylem oddef unrhyw ymddygiad sy'n achosi niwed neu ofid. Byddwn yn parhau i roi sylw i rai o'r rhwystrau a'r diffyg ymwybyddiaeth mewn lleoliadau cymunedol allweddol.

Nodwyd nifer o faterion strwythurol a diwylliannol gennym a chawsant eu cyflwyno yn ein hadroddiad blynyddol, a gyhoeddwyd ym mis Medi.

Mae amrywiaeth y ffynonellau cyllido'n parhau'n bryder; fodd bynnag, *dylai* datblygu model cenedlaethol o gyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol VAWDASV helpu i gyflawni blaenoriaethau Strategaeth VAWDASV Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys y canlynol:

- Ffocws cynyddol ar ddal cyflawnwyr i gyfrif a darparu cyfleoedd i newid eu hymddygiad yn seiliedig ar ddiogelwch dioddefwyr;
- Gwneud ymyriad cynnar ac atal yn flaenoriaeth; a
- Darparu i ddioddefwyr fynediad cyfartal at wasanaethau ymatebol i'r rhywiau o ansawdd uchel, gydag adnoddau priodol, yn cael eu harwain gan anghenion ac yn seiliedig ar gryfder ledled Cymru.

Mae'r gymysgedd o sefydliadau datganoledig a heb eu datganoli sy'n weithredol gyda chyflawni amcanion y Ddeddf yn cynnwys lechyd, Tai, Addysg, y Gwasanaeth Prawf, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a'r Heddlu. Mae hyn yn gallu golygu bod y cydweithredu a'r integreiddio'n gallu bod yn anodd ar adegau, yn enwedig gyda rhai partneriaid.

Mae diffyg un gyfres genedlaethol unigol o safonau ansawdd neu God Ymarfer wedi golygu ymgymryd cyfyngedig ag achredu yn erbyn y safonau presennol.

Mae ansicrwydd am ddyfodol diwygio llywodraeth leol wedi arwain at oedi gyda phenderfyniadau am ryddhau arian, er enghraifft, ar gyfer Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARCs), neu gyfrannu cyllidebau at bot rhanbarthol.

Ar adegau, mae'n ymddangos bod diffyg uno rhwng adrannau a meysydd polisi yn Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo yn awr i ddull traws-adrannol o weithredu ac mae wrthi'n sefydlu grŵp llywio traws-lywodraethol.

Drwy ein hymwneud â dioddefwyr a goroeswyr, rydym yn gwbl ymwybodol, er bod pob awdurdod yn ceisio rhoi lle canolog i ddioddefwyr a goroeswyr ym mhopeth, nad yw'r uchelgais hwn wedi cael ei wireddu'n llawn. Nododd goroeswyr 10 argymhelliad allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru fel rhan o'r Strategaeth Genedlaethol ac, fel Cynghorwyr Cenedlaethol, mae'n flaenoriaeth gennym ni i sicrhau ein bod yn rhoi'r argymhellion hyn ar waith fel rhan o'n Cynllun Blynyddol. Rhaid i'r egwyddorion a amlinellir gan oroeswyr, eu profiadau a'r bylchau sy'n bodoli, fod yn rhan ganolog o'r sail ar gyfer datblygu gwasanaethau. Ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau ein bod yn gweithredu ar yr hyn maent yn ei ddweud wrthym a dyma pam rydym yn cynnig panel "adolygiad achos" yn seiliedig ar banelau craffu'r CPS, sy'n datgan gwelliannau gwasanaeth yn seiliedig ar achosion hanesyddol. Ym mis Mai 2019, byddwn yn amlinellu model ar gyfer Cymru a fydd yn ein helpu i ddysgu a gwella o siwrnai'r dioddefwr.

Os oes gennych chi un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig e.e. hil, anabledd, dywed Deddf Cydraddoldeb 2010 ei bod yn ofynnol i awdurdodau ystyried yr effaith ar y nodweddion hyn wrth ddatblygu polisïau. Credir ers peth amser y dylai bod yn 'ddioddefwr cam-drin' fod yn nodwedd warchodedig ei hun, ond nid yw'r ystyriaeth hon wedi'i gweithredu ymhellach.

Rhaid wrth well llwybrau cyfeirio ar gyfer asesiadau iechyd meddwl sy'n nodi'r trawma a achosir gan gam-drin domestig, trais rhywiol a niwed diwylliannol anghyfreithlon. Rydym wedi siarad ag unigolion sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin a niwed yn ogystal â gweithwyr proffesiynol sydd angen hyfforddiant a gwybodaeth er mwyn gallu cyfeirio at ddarparwyr arbenigol. Mae hwn yn faes gwaith gaiff flaenoriaeth yn 2019 drwy weithio gydag arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd.

#### **4. Amcanion 2019 - 2020**

##### **4.1 DULL CENEDLAETHOL O WEITHREDU GYDA GWASANAETHAU LLOCHES A CHANOLFANNAU ATGYFEIRIO YMOSODIADAU RHYWIOL**

Mae'r ddarpariaeth angenrheidiol ac i'w chrosawu o lefydd diogel i ddioddefwyr wedi datblygu bob yn dipyn dros y blynyddoedd. Mae'n hynod werthfawr. Fodd bynnag, mae o dan bwysau o ran adnoddau ac yn dibynnu ar loteri ddaearyddol.

Gellir dweud yr un peth am y ddarpariaeth o ganolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol (SARCs). Ceir dadl gref sy'n darbwyllo dros ddweud bod y rhain yn wasanaethau brys cenedlaethol ac y dylid edrych arnynt yn yr un ffordd ag yr ydym yn gweld y Gwasanaethau Brys eraill.

Rydym yn croesawu cyhoeddiad y Prif Weinidog am gymryd camau i drawsnewid darpariaeth lloches a gwasanaethau trais rhywiol yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad, o dan arweiniad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, i edrych ar rai o'r esiamplau rhyngwladol gorau o wasanaethau a chefnogaeth. Hefyd, ac yn bwysig iawn, bydd yr adolygiad yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth i ddatblygu model "gwnaed yng Nghymru" sy'n darparu safon cefnogaeth o safon byd i ddioddefwyr trais rhywiol.

**Amcan 1:** Byddwn yn adolygu'r canfyddiadau a'r argymhellion a gynhaliwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ac yn cefnogi datblygiadau yn y dyfodol.

**Amcan 2:** Byddwn yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol a'r Trydydd Sector, a darparwyr Gwasanaeth SARC, i sicrhau bod anghenion dioddefwyr a goroeswyr yn cael eu hadlewyrchu yn y Strategaethau Lleol erbyn 1af Mai 2019.

## 4.2 ADRODD YN ÔL A MONITRO/GWERTHUSO

Os na fyddwch chi'n mesur yr hyn rydych yn ei drysori, ni fydd yn cael ei wneud. Mae adolygiad cyflym o'r tirlun adrodd yn ôl a monitro/gwerthuso'n awgrymu bod dyblygu a bylchau. Rydym yn ystyried rhywfaint o hyn yn effeithiol iawn, ond nid felly rhai elfennau. Mae llawer o'r elfennau'n monitro'r broses yn unig, yn hytrach na'r canlyniadau i ymgynraedd atynt. Nid oes llawer o fonitro effaith ac, oherwydd y ffordd mae'r gwasanaethau wedi datblygu, nid oes llawer o ddadansoddi budd-cost neu effeithiolrwydd-cost.

**Amcan 3:** Byddwn, erbyn 30ain Mehefin 2019, yn adolygu gwaith ar adnabod bylchau mewn data ymchwil a chasglu data ac yn adnabod arfer gorau mewn gwerthuso.

## 4.3 DANGOSYDDION CENEDLAETHOL:

Dywed y Ddeddf ei bod yn ofynnol creu a chyhoeddi Dangosyddion Cenedlaethol.

Felly, rydym yn cefnogi'r Gweinidog yng Nghymru i ddatblygu Dangosyddion Cenedlaethol a fydd yn mesur cynnydd yn erbyn dibenion y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Rydym wedi edrych ar feysydd ychwanegol a fyddai'n elwa o ymchwil pellach ac, yn 2019, byddwn yn edrych ar gwestiynau y gallwn eu cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol. Bydd y maes gwaith hwn yn flaenoriaeth i ni fel Cynghorwyr Cenedlaethol, gan weithio gyda phartneriaid allanol, a bydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus erbyn diwedd y flwyddyn hon.

**Amcan 4:** Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyhoeddi dangosyddion terfynol erbyn mis Mai 2019.

#### **4.4 LLYWODRAETHU**

Yn ein Hadroddiad Blynyddol, nodwyd gennym yr angen am adnewyddu'r trefniadau llywodraethu presennol. Mae'r Cabinet wedi cytuno yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2018 i'n cynigion ar gyfer Grŵp Llywio Gweinidogol Traws-Lywodraethol (CGMSG), a gefnogir gan Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Arbenigol (ESAG), Panel Academaidd Arbenigol (EAP) a Grŵp Cyllid Cynaliadwy (SFG). Mae cylch gorchwyl ac aelodaeth yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, gweler Atodiad 2 am strwythur adrodd yn ôl.

##### **4.4.1 GRŴP LLYWIO GWEINIDOGOL TRAWS-LYWODRAETHOL**

Yn ein hadroddiad i'r Cabinet roeddem yn gofyn i bob Gweinidog ac Ysgrifennydd Cabinet ymrwymo i agenda VAWDASV, gan weithio ar draws portffolios os yw hynny'n briodol, a darparu arweinydd strategol i hwyluso pwlio adnoddau a gwaith partneriaeth. Fel rhan o'r ymrwymiad hwnnw, bydd grŵp llywio traws-lywodraethol yn cael ei sefydlu i gyflawni'r canlynol:-

- darparu arweinyddiaeth a llywio blaenoriaethau VAWDASV ar draws Llywodraeth Cymru;
- sicrhau bod y darpariaethau a nodir yn y Ddeddf yn cael eu bodloni ym mhob portffolio Gweinidogol;
- datblygu camau gweithredu traws-weinidogol a all sicrhau cynnydd pellach gyda'r gofynion a'r amcanion yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Fframwaith Cyflawni Traws-lywodraethol 2018-2021
- sicrhau bod VAWDASV yn cael ei ystyried ym mhob polisi, prosiect a rhaglen sydd ag effaith bosibl i ddiodefwr cam-drin.

**Amcan 5:** Byddwn yn chwarae rhan weithredol yn y Grŵp Llywio Traws-Lywodraethol ac yn sicrhau bod lleisiau diodefwr a goroeswr yn cael eu clywed ar lefel Genedlaethol.

##### **4.4.2 PANEL ACADEMAIDD ARBENIGOL**

Cytunodd y Cabinet i greu panel i fonitro a hybu'r egwyddorion a'r rhwymedigaethau sydd wedi'u hymgorffori yn y Confensiwn ar Ddileu pob Ffurf ar Wahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW) a Chonfensiwn Istanbwl yng Nghymru. Bydd y grŵp hwn hefyd yn ystyried ac yn cynghori ar sut i ddatblygu cydymffurfiaeth yn y dyfodol o bersbectif cyfreithiol a pholisi.

Mae'r panel yn cynnwys ymchwilwyr a gweithwyr proffesiynol Academaidd a gydnabyddir yn rhyngwladol a bydd yn adrodd yn ôl yn uniongyrchol i'r Grŵp Llywio Traws-Lywodraethol.

**Amcan 6:** Byddwn yn cadeirio'r Panel Academaidd Arbenigol gyda'r bwriad o fwydo i adroddiadau monitro a gweithredu fel y cyswllt rhyngddo a'r Grŵp Llywio Traws-Lywodraethol.

#### **4.4.3 GRŴP RHANDDEILIAID ARBENIGOL:**

Cytunodd Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip i newid y Grŵp Cyngori presennol am grŵp rhanddeiliaid newydd a fyddai'n sail i ddatblygu polisïau yn ogystal â gweithio gyda darparwyr arbenigol er mwyn sicrhau bod arfer da'n cael ei rannu a bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Prif bwrpas y Grŵp Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yw darparu cyngor Trydydd Sector i gefnogi gweithredu pellach ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) a chynorthwyo gyda gwaith y Panel Academaidd Arbenigol o ran gweithredu egwyddorion fframwaith Confensiwn Istanbwl yng Nghymru.

**Amcan 7:** Byddwn yn cadeirio'r Grŵp Rhanddeiliaid Arbenigol, gan weithredu fel cyswllt rhyngddo a'r Panel Academaidd Arbenigol a'r Grŵp Llywio Traws-Lywodraethol.

#### **4.4.4 GRŴP CYLLID CYNALIADWY:**

Un o'r heriau allweddol ar gyfer 2019/20 yw symud tuag at fodel cyllid cynaliadwy ar gyfer y ddarpariaeth VAWDASV. Ochr yn ochr â swyddogion Llywodraeth Cymru, rydym wedi bod yn gwneud gwaith sylweddol i ddatblygu model cyllido tymor hir a chynaliadwy yn dilyn y cyfarwyddyd comisiynu drafft a gyhoeddwyd yng ngwanwyn 2018. Ein nod ni yw i'r model hwn ddarparu'r sylfeini ar gyfer mecanwaith cyllido a fydd yn rhoi diogelwch ariannol cynaliadwy i'n gwasanaethau arbenigol. Am y rheswm hwn, rydym wedi ailsefydlu'r Grŵp Cyllid Cynaliadwy.

Dyma bwrpas y grŵp:

- adolygu Llywodraeth Cymru a ffynonellau cyllido eraill sy'n cefnogi gwasanaethau ac ymyriadau VAWDASV ar hyn o bryd ledled Cymru;
- sicrhau pontio llyfn wrth symud at ddull rhanbarthol o weithredu sy'n annog ac yn hwyluso gwell cydweithredu rhwng partneriaid perthnasol ac yn cynnig cyfle i gyllid yn y dyfodol ystyried bylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau a bod yn fwy ymatebol i anghenion lleol erbyn mis Ebrill 2020;
- adnabod rhwystrau a all godi o weithredu'r Cyfarwyddyd Comisiynu statudol a nodi datrysiadau posibl erbyn mis Ebrill 2020;
- datblygu'r egwyddorion a'r fframwaith ar gyfer model cyllido cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol VAWDASV sy'n ystyried yr adolygiad uchod a'r agenda ar gyfer datganoli cyfrifoldeb i ranbarthau.

**Amcan 8:** Byddwn yn cadeirio'r Grŵp Cyllid Cynaliadwy ac yn adrodd ar y cynnydd gyda phwrpas uchod y Grŵp. Byddwn hefyd yn gweithredu fel cyswllt rhwng y Panel

Academaidd Arbenigol, y Grŵp Rhanddeiliaid Arbenigol a'r Grŵp Llywio Traws-Lywodraethol.

#### **4.5 FFRAMWAITH YMGYSYLLTU Â GOROESWYR CENEDLAETHOL**

Cyfrannodd goroeswyr at yr ymgynghoriad ar y fframwaith, gan gynnig gwybodaeth bersonol iawn am sut gwnaeth y gwasanaethau wahaniaeth a chynnig help. Hefyd cawsom wybod sut gallwn wella'r ffordd rydym yn ymgysylltu â goroeswyr. Mae'r ymgynghori'n parhau ac rydym yn awyddus i barhau ar y siwrnai a gweld sut gall goroeswyr ddylanwadu ar y ddarpariaeth yn y dyfodol. Hefyd tynnwyd sylw yn yr ymgynghoriad ar y Fframwaith Ymgysylltu â Goroeswyr Cenedlaethol at yr angen am uno gwybodaeth yn well, i osgoi trawma o'r newydd. Rydym yn parhau â'n hymrwymiad i sicrhau bod yr ymateb cyntaf i ddatgeliad yn ymateb priodol, gan fabwysiadu dull "un cyfle" o weithredu ar gyfer yr holl sefydliadau diogelu a'r sefydliadau eraill.

**Amcan 9:** Byddwn yn gweithio gyda'r strwythurau presennol i integreiddio'r gwersi a ddysgwyd yn rhan o arferion sydd â photensial i gael lle blaenllaw yn y strwythurau perthnasol.

#### **4.6 LLYWODRAETH Y DU**

Mae'n ofynnol gweithio'n llawer agosach â Llywodraeth y DU. Rydym wedi gweld cyfathrebu gwael gan Lywodraeth y DU gyda swyddogion Llywodraeth Cymru'n "synnu" yn aml at fentrau a ddatblygir yn Lloegr sydd â goblygiadau neu'n cael effaith ar bolisiau neu gyrff sylweddol o waith sydd ar waith eisoes yng Nghymru. Mae'r pryder hwn yn ymwneud â materion cysylltiedig â chyfrifoldebau datganoledig a heb eu datganoli. Rhaid i hyn newid a byddwn ni, fel Cynghorwyr Cenedlaethol, yn gweithio i wella'r ymgysylltu fel ei fod yn gynnar a gwybodus.

Bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno Bil Trais a Cham-drin Domestig y flwyddyn nesaf ac mae disgwyl iddo gyflawni'r canlynol:

- pennu diffiniad clir o gam-drin domestig, gan gydnabod bod cam-drin domestig yn ymestyn y tu hwnt i drais;
- creu trosedd cam-drin domestig cyfnerthedig newydd gan gydnabod bod cam-drin domestig yn ymestyn y tu hwnt i drais;
- sefydlu comisiynydd trais a cham-drin domestig;
- rhoi gallu i'r DU erlyn am droseddau penodol sy'n digwydd y tu allan i'r ffiniau cenedlaethol mewn perthynas â rhai troseddau VAWG, fel treisio ac ymosodiad rhywiol.

Ni ddylai unrhyw elfen o hyn lesteirio'r cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru, ond byddwn yn gweithio i wella'r gweithredu ar y Ddeddf yn seiliedig ar yr hyn mae Cymru'n ei ddweud wrthym. Hefyd rhaid i ni rannu'r dysgu gyda phob awdurdodaeth ddatganoledig arall.



**Amcan 10:** Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i wella'r cyfathrebu â Swyddfa Gartref y DU a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

#### **4.7 RHAGLENNI CYFLAWNWYR**

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio tuag at ddatblygu a gweithredu polisi mewn perthynas â gwasanaethau cyflawnwyr VAWDASV yng Nghymru, gan geisio bod yn sail i arferion sy'n effeithiol o ran rhoi sylw i risgiau ac anghenion cyflawnwyr VAWDASV a chyfrannu hefyd at sicrhau bod Cymru'n lle diogel i fyw i bawb. Rydym yn cydnabod ei bod yn hanfodol ein bod yn gweithio gyda chyflawnwyr os ydym am warchod dioddefwyr a goroeswyr, a'r cyhoedd yn ehangach, rhag niwed, a byddwn yn pwysleisio hyn wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid. Bydd y ffocws ar gefnogi gwasanaethau i ddatblygu arferion sy'n gyson â Safonau Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cyflawnwyr VAWDASV a/neu achrediad arbenigol. Hefyd bydd comisiynwyr gwasanaethau o'r fath yn cael eu cefnogi i ddatblygu prosesau sy'n cydnabod ac yn cefnogi cadw at y Safonau hyn, a byddwn yn hybu gwerth y Safonau ymhlith rhanddeiliaid ledled Cymru.

**Amcan 11:** Byddwn yn gweithio gyda'r rhanbarthau hynny sydd heb ymgymryd â mapio cadarn na dadansoddiad bwlch eto gyda'u gwasanaethau cyflawnwyr VAWDASV (ar draws asiantaethau statudol ac anstatudol, datganoledig a heb eu datganoli) i sicrhau eu bod yn ymgymryd â'r gwaith hanfodol hwn er mwyn cynllunio'n effeithiol a chomisiynu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion a risg.

**Amcan 12:** Byddwn yn annog gwasanaethau cyhoeddus i ddefnyddio'n ehangach y canllaw arfer da ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gan weithio gyda chyflawnwyr VAWDASV (yn cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru) er mwyn sicrhau dull cyson o adnabod a chyfeirio unigolion at wasanaethau arbenigol.

#### **4.8 TRAIS RHYWIOL:**

Rydym yn cydnabod bod heriau penodol i'r sector trais rhywiol ledled Cymru. Mae ein hymgysylltu â gwasanaethau arbenigol a goroeswyr cam-drin rhywiol yn tynnu sylw at yr angen am weithredu'n strategol wrth gomisiynu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu ein bod yn sicrhau gwell dealltwriaeth o'r ymyriadau sydd ar gael yn erbyn y bylchau yn y ddarpariaeth bresennol. Hefyd rhaid i ni gydnabod yr arfer da ar draws y rhanbarthau, yn enwedig ewyllys da gwirfoddolwyr sydd ar hyn o bryd yn llenwi heb dâl am eu hamser. Nid yw cyfraniad at gostau teithio'n adlewyrchu gwerth gwasanaethau unigol. Yn 2019, ein nod ni yw sicrhau nad yw gwasanaethau trais rhywiol yn cael eu gweld mwyach fel perthynas tlawd i elfennau eraill VAWDASV.

**Amcan 13:** Yn dilyn yr adolygiad a gynhaliwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, y cyfeirir ato yn adran 4.1, byddwn yn edrych gyda'r darparwyr gwasanaethau trais rhywiol sut gellir datblygu capasiti a gwella cydweithredu.

#### **4.9 LLETY Â CHYMORTH:**

Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn arwain adolygiad ar hyn o bryd o'r ddarpariaeth a'r cyllid lleol i wasanaethau mewn llety cam-drin domestig, gan gynnwys llochesi, ledled Lloegr. Rhaid i ni ddeall yn well beth sy'n gweithio ar hyn o bryd yng Nghymru, beth fydd angen ei wella a deall y gwersi a ddysgwyd i sicrhau cyn belled â phosibl bod pobl agored i niwed, gan gynnwys dioddefwyr trais domestig a rhywiol, yn cael y llety â chymorth y mae arnynt ei angen. Rydym yn cydnabod yr angen am well cydweithredu i gyflawni dyletswydd gyhoeddus o ofal ac, yn 2019, byddwn yn parhau i godi hyn ar lefel y DU a ledled Cymru.

**Amcan 14:** Byddwn yn parhau i godi'r materion cysylltiedig â llety â chymorth gyda'r rhai sy'n gallu cael effaith ar ei ddatblygiad.

#### **4.10 NIWED DIWYLLIANNOL ANGHYFREITHLON:**

Rydym yn cydnabod y diffyg dealltwriaeth o briodas dan orfod, cam-drin ar sail anrhydedd ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM) sy'n dal i fodoli. Rhaid i ni wneud mwy i warchod grwpiau agored i niwed a sicrhau bod y cam-drin a brofir gan grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig yn cael ei ddeall a bod dioddefwyr yn cael cefnogaeth gyda darpariaeth arbenigol. Byddwn yn rhan o Grŵp Arwain Cymru ar Drais ar Sail Anrhydedd, Priodasau Dan Orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (y Grŵp Arwain) i sicrhau ein bod yn gweithio tuag at greu llwybrau atgyfeirio sy'n delio'n effeithiol ag amddiffyn a diogelu plant yng nghyd-destun hunaniaeth ddiwylliannol. Yn ystod y flwyddyn sy'n dod byddwn yn edrych ar anghenion cymhleth a'r agweddau agored i niwed niferus sy'n perthyn nid yn unig i grwpiau DLIE, ond hefyd goroeswyr â nodweddion gwarchodedig. Rydym yn derbyn bod angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn a byddwn yn cyflwyno camau gweithredu ar gyfer cyrraedd y dioddefwyr hynny nad ydynt yn gallu datgelu cam-drin fel sydd angen, am nad ydynt yn ymwybodol o'r gwasanaethau a all helpu, a gwella'r ffordd rydym yn diwallu anghenion grwpiau amrywiol.

**Amcan 15:** Byddwn yn nodi cymunedau sy'n wynebu risg drwy weithio mewn ardaloedd lleol fel bod mynediad at gymorth ar gael a bod plant sy'n wynebu risg yn cael eu hamddiffyn.

**Amcan 16:** Byddwn yn gweithio gyda'r Grŵp Arwain i wella casglu data, fel bod gennym well dealltwriaeth o amlygrwydd, drwy weithio gyda darparwyr arbenigol.

**Amcan 17:** Byddwn yn cefnogi gwaith Grŵp Arwain Cymru ar Drais ar Sail Anrhydedd, Priodasau Dan Orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod ac yn gweithredu fel y cyswllt rhyngddo a'r holl grwpiau y tynnir sylw atynt yn Adran 4: Llywodraethu.

#### **4.11 STRATEGAETHAU LLEOL:**

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i baratoi a chyhoeddi strategaethau lleol ar y cyd ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Wrth ddatblygu strategaethau

lleol, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, o dan adran 7 y Ddeddf, ystyried yr asesiadau diweddaraf o anghenion a gynhaliwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r asesiadau strategol o dan adran 6 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn ymwneud â lleihau trosedd ac anhrefn, trechu camddefnydd o sylweddau a lleihau aildroseddu. Yn 2018, aethom ati i ysgrifennu at yr holl awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol yn gofyn am gopi o'u strategaethau VAWDASV lleol, er mwyn adnabod arfer da a chynnydd yn erbyn y Ddeddf, ac rydym wedi dadansoddi rhai o'r ymatebion ac, os yw hyn yn bosibl, byddwn yn rhannu arferion da.

**Amcan 18:** Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i barhau i ddadansoddi'r Strategaethau Lleol a ddatblygwyd yn 2018 ac, erbyn 1af Mai 2019, byddwn yn darparu esiamplau o arfer gorau i gynorthwyo gyda datblygu strategaethau'r dyfodol.

#### **4.12 PLANT:**

Rydym yn parhau i gydnabod bod plant sy'n ddiodefswyr angen dull pwrpasol o weithredu a'u bod, yn hanesyddol, wedi cael eu siomi gan yr holl asiantaethau. Yn y cyswllt hwn, mae angen diweddarau pecynnau adnoddau a chanllawiau'n gyson ac ni fyddwn yn anghofio am hynny.

**Amcan 19:** Byddwn yn gweithio gyda'r Comisiynydd Plant i adolygu datblygiadau polisi parhaus er mwyn sicrhau bod anghenion plant fel diodefswyr a thystion yn cael eu hystyried ac yn cael sylw priodol.

#### **4.13 DIODEDFWYR CAM-DRIN**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwarchod deiliaid 9 nodwedd warchoddedig: oedran; anabled; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'r gyfraith yn gwarchod pobl o'r fath rhag anfantais a gwahaniaethu. Dywed ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ystyried effaith polisi cyn ei weithredu, gyda'r bwriad o ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu a hybu cyfleoedd cyfartal. Rydym wedi gwrando ar y rhai sy'n gweithio gyda diodefswyr a goroeswyr cam-drin a byddwn yn ystyried sut i ddileu'r effaith niweidiol ar ddiodefswyr cam-drin wrth ddatblygu polisiau, prosiectau a rhaglenni drwy waith y Grŵp Llywio Traws-Lywodraethol.

**Amcan 20:** Byddwn yn edrych ymhellach ar yr hawliau ychwanegol y dylai diodefswyr cam-drin fod â hawl iddynt.

#### **4.14 MYNEDIAD AT WASANAETHAU**

Rydym yn cydnabod yr anhawster sy'n wynebu llawer o ddiodefswyr sydd angen teithio ledled Cymru ac o rannau gwledig o'r wlad i gael darpariaeth arbenigol a gwasanaethau brys o ganlyniad i gam-drin/trais domestig a rhywiol. Gall hyn arwain at ddewis bod yn ddiogel neu gynnal effeithiau niweidiol niwed i ddiodefswyr a'u plant. Rydym eisiau sicrhau, os yw hynny'n bosibl, bod gwasanaethau ar gael ble

bynag rydych chi'n byw, gan gynnwys cyfeirio at ddarpariaeth arbenigol. Felly, byddwn yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a'r Gweinidogion sydd â chyfrifoldebau gwledig a thrafnidiaeth i sicrhau bod modd cyflawni ein hamcan strategol o wella mynediad i bawb drwy well dealltwriaeth a mapio'r ddarpariaeth bresennol sydd hefyd yn tynnu sylw at fylchau mewn gwasanaethau ledled Cymru.

Mae ymyriadau cynnar yn allweddol os ydym am leihau effaith drychinebus achosion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar unigolion a theuluoedd. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod modd cyflawni gwarchodaeth drwy ymateb cydweithredol ac wedi'i gydlynu.

**Amcan 21:** Byddwn yn gweithio gyda darparwyr arbenigol i edrych ar "lwybr partneriaeth ar gyfer dioddefwyr" gan wella gwaith aml-asiantaeth ac adnabod cynnar ar gyfer y rhai'n wynebu risg o niwed.

#### **4.15 ASESIADAU IECHYD MEDDWL**

Drwy ymgysylltu â dioddefwyr a goroeswyr cam-drin, yn enwedig trais rhywiol, rydym yn cydnabod yr angen am lwybrau iechyd meddwl integredig sy'n rhoi sylw i'r trawma penodol a brofir ganddynt.

Gan weithio mewn partneriaeth, byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i leihau niwed a chefnogi dioddefwyr a goroeswyr.

Y cynllun hwn yw ein cynllun cyntaf ni fel Cynghorwyr Cenedlaethol ac rydym yn credu ei fod yn cyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru a phobl Cymru i wneud y wlad hon yn lle mwy diogel i'w holl ddinasyddion. Mae hyn yn darparu llwyfan ar gyfer trawsnewid y ffordd mae gwasanaethau VAWDASV yn cael eu darparu ledled Cymru.

**Amcan 22:** Yng ngwanwyn 2019 byddwn yn cynnal digwyddiad VAWDASV Cenedlaethol a fydd yn dod ag arfer da at ei gilydd ac yn rhannu gwersi sy'n dangos canlyniadau ystyrlon i ddiodeswyr cam-drin. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid arbenigol i dynnu sylw at fylchau yn y ddarpariaeth bresennol ac adnabod camau gweithredu Lleol, Rhanbarthol a Chenedlaethol ar gyfer gwella gwasanaethau.

## **ATODIAD 1 – EIN HAMCANION AR GYFER 2019 -2020**

**Amcan 1:** Byddwn yn adolygu'r canfyddiadau a'r argymhellion a gynhaliwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ac yn cefnogi datblygiadau yn y dyfodol.

**Amcan 2:** Byddwn yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol a'r Trydydd Sector, a darparwyr Gwasanaeth SARC, i sicrhau bod anghenion dioddefwyr a goroeswyr yn cael eu hadlewyrchu yn y Strategaethau Lleol erbyn 1af Mai 2019.

**Amcan 3:** Byddwn, erbyn 30ain Mehefin 2019, yn adolygu gwaith ar adnabod bylchau mewn data ymchwil a chasglu data ac yn adnabod arfer gorau mewn gwerthuso.

**Amcan 4:** Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyhoeddi dangosyddion terfynol erbyn mis Mai 2019.

**Amcan 5:** Byddwn yn chwarae rhan weithredol yn y Grŵp Llywio Traws-Llywodraethol ac yn sicrhau bod lleisiau dioddefwyr a goroeswyr yn cael eu clywed ar lefel Genedlaethol.

**Amcan 6:** Byddwn yn cadeirio'r Panel Academaidd Arbenigol gyda'r bwriad o fwydo i adroddiadau monitro a gweithredu fel y cyswllt rhyngddo a'r Grŵp Llywio Traws-Llywodraethol.

**Amcan 7:** Byddwn yn cadeirio'r Grŵp Rhanddeiliaid Arbenigol, gan weithredu fel cyswllt rhyngddo a'r Panel Academaidd Arbenigol a'r Grŵp Llywio Traws-Llywodraethol.

**Amcan 8:** Byddwn yn cadeirio'r Grŵp Cyllid Cynaliadwy ac yn adrodd ar y cynnydd gyda phwrpas uchod y Grŵp. Byddwn hefyd yn gweithredu fel cyswllt rhwng y Panel Academaidd Arbenigol, y Grŵp Rhanddeiliaid Arbenigol a'r Grŵp Llywio Traws-Llywodraethol.

**Amcan 9:** Byddwn yn gweithio gyda'r strwythurau presennol i integreiddio'r gwersi a ddysgwyd yn rhan o arferion sydd â photensial i gael lle blaenllaw yn y strwythurau perthnasol.

**Amcan 10:** Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i wella'r cyfathrebu â Swyddfa Gartref y DU a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

**Amcan 11:** Byddwn yn gweithio gyda'r rhanbarthau hynny sydd heb ymgymryd â mapio cadarn na dadansoddiad bwlich eto gyda'u gwasanaethau cyflawnwyr VAWDASV (ar draws asiantaethau statudol ac anstatudol, datganoledig a heb eu datganoli) i sicrhau eu bod yn ymgymryd â'r gwaith hanfodol hwn er mwyn cynllunio'n effeithiol a chomisiynu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion a risg.

**Amcan 12:** Byddwn yn annog gwasanaethau cyhoeddus i ddefnyddio'n ehangach y canllaw arfer da ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gan weithio gyda chyflawnwyr VAWDASV (yn cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru) er mwyn sicrhau dull cyson o adnabod a chyfeirio unigolion at wasanaethau arbenigol.

**Amcan 13:** Yn dilyn yr adolygiad a gynhaliwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, y cyfeirir ato yn adran 4.1, byddwn yn edrych gyda'r darparwyr gwasanaethau trais rhywiol sut gellir datblygu capasiti a gwella cydweithredu.

**Amcan 14:** Byddwn yn parhau i godi'r materion cysylltiedig â llety â chymorth gyda'r rhai sy'n gallu cael effaith ar ei ddatblygiad.

**Amcan 15:** Byddwn yn nodi cymunedau sy'n wynebu risg drwy weithio mewn ardaloedd lleol fel bod mynediad at gymorth ar gael a bod plant sy'n wynebu risg yn cael eu hamddiffyn.

**Amcan 16:** Byddwn yn gweithio gyda'r Grŵp Arwain i wella casglu data, fel bod gennym well dealltwriaeth o amlygrwydd, drwy weithio gyda darparwyr arbenigol.

**Amcan 17:** Byddwn yn cefnogi gwaith Grŵp Arwain Cymru ar Drais ar Sail Anrhydedd, Priodasau Dan Orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod ac yn gweithredu fel y cyswllt rhyngddo a'r holl grwpiau y tynnir sylw atynt yn Adran 4: Llywodraethu.

**Amcan 18:** Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i barhau i ddadansoddi'r Strategaethau Lleol a ddatblygwyd yn 2018 ac, erbyn 1af Mai 2019, byddwn yn darparu esiamplau o arfer gorau i gynorthwyo gyda datblygu strategaethau'r dyfodol.

**Amcan 19:** Byddwn yn gweithio gyda'r Comisiynydd Plant i adolygu datblygiadau polisi parhaus er mwyn sicrhau bod anghenion plant fel dioddefwyr a thystion yn cael eu hystyried ac yn cael sylw priodol.

**Amcan 20:** Byddwn yn edrych ymhellach ar yr hawliau ychwanegol y dylai dioddefwyr cam-drin fod â hawl iddynt.

**Amcan 21:** Byddwn yn gweithio gyda darparwyr arbenigol i edrych ar "lwybr partneriaeth ar gyfer dioddefwyr" gan wella gwaith aml-asiantaeth ac adnabod cynnar ar gyfer y rhai'n wynebu risg o niwed.

**Amcan 22:** Yng ngwanwyn 2019 byddwn yn cynnal digwyddiad VAWDASV Cenedlaethol a fydd yn dod ag arfer da at ei gilydd ac yn rhannu gwersi sy'n dangos canlyniadau ystyrlon i ddiodesfwyr cam-drin. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid arbenigol i dynnu sylw at fylchau yn y ddarpariaeth bresennol ac adnabod camau gweithredu Lleol, Rhanbarthol a Chenedlaethol ar gyfer gwella gwasanaethau.



**Atodiad 2: Strwythur Llywodraethu**

